Gweithgor Archwiliad Dwfn y Tirweddau Dynodedig

Nodiadau'r Cyfarfod

Dyddiad y cyfarfod: 2ail Gorffennaf 2025
Amser y cyfarfod: 14:00-16:00

Mynychwyr

Ruth Lovell, Sara Wynne-Pari, Howard Davies, Graham Berry, Andrew Blake, Simon Pickering, Simone Lowthe-Thomas, Rebecca Walley, Keith Davies, Gareth Ludkin, Carole Thornley, Lawrence Harris, Tom Cosson, Steve Spode.

Ymddiheuriadau

Anna Jones, Michelle Webber, Sarah Mellor, Alan Sumnall, Paul Sinnadurai.

Crynodeb

Roedd y cyfarfod wedi canolbwyntio ar ddiweddariadau a'r cynnydd ar draws y tirweddau dynodedig yng Nghymru, yn enwedig o ran bioamrywiaeth, cydweithio, hyfforddiant GIS, a'r fframwaith 30x30. Ymhlith y trafodaethau allweddol oedd y canlynol:
- Diweddariadau'r Grŵp Cyflawni Strategol a'r gwaith rhyngddibynnol sy'n digwydd rhwng y gweithgorau.
- Y camau ymlaen, yr heriau a'r cynlluniau gwerthuso'r rhaglen Ffermio Bro.
- Datblygu rhaglenni gwaith ac ymgysylltu â'r rhanddeiliaid.
- Anghenion yr hyfforddiant ar GIS ac offer posibl ar gyfer y tirweddau dynodedig.
- Yr adborth ar adroddiad Cymdeithas Ecolegol Prydain (BES) ac alinio'r adroddiad â'r fframwaith 30x30.
- Diweddariadau deddfwriaethol a'r "Ddyletswydd Sylw Dyladwy".
- Strategaethau cyfathrebu a gwella allgymorth.
- Adnoddau ar gyfer 30x30 a chyfleoedd mapio.
- Unrhyw Fater Arall gan gynnwys targedau bioamrywiaeth a Rhestr Werdd yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN).

Pwyntiau Allweddol

Diweddariadau Strategol
- Ailenwi'r grŵp craidd yn Grŵp Cyflawni Strategol.

- Yr angen am eglurder ynghylch y gwahanol rolau a’r gwaith rhyngddibynnol.
- Amlygu rôl TCLW o ran uwch-sgilio staff y tirweddau dynodedig.

Y Rhaglen Ffermio Bro

- 200 o ddatganiadau o ddiddordeb wedi dod i law; nodwyd y pwysau cyllidebol.
- Pwyslais ar gydweithio thematig/ daearyddol.
- Cynlluniau ar gyfer gwerthuso annibynnol a defnyddio data ar gyfer y cynllun ffermio cynaliadwy.

Diweddariad Sara Wynne-Pari

- Yn cynnig cynnal cyfarfodydd misol o’r tirweddau dynodedig.
- Problemau capasiti yn y tirweddau dynodedig llai.
- Hyfforddiant eco-lythrennedd yn cael ei ddatblygu gyda Cynnal Cymru.

Hyfforddiant GIS

- Angen offer mapio symlach sy'n hawdd ei ddefnyddio.
- Cynnig ffurfio grŵp mapio GIS a gweithdai ymarferol.
- Hyfforddiant i gynghorwyr Ffermio Bro wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi.

Adroddiad Cymdeithas Ecolegol Prydain (BES)

- Adborth wedi'i dderbyn; angen diweddaru drwy gyfeirio at 30x30.
- Cyfarfod i'w drefnu gyda Chymdeithas Ecolegol Prydain (BES) i drafod y camau nesaf.

Deddfwriaethol a Pholisi

- Trafodaeth ar “Ddyletswydd Sylw Dyladwy” a deddfwriaeth gynllunio.
- Cyfle i drafod deddfwriaeth yng nghyfarfod nesaf TCLW.

Cyfathrebu

- Angen gwell cyfathrebu mewnol ac allanol.
- Awgrym i ddefnyddio ffeithluniau ar gyfer negeseuon allweddol.

Adnoddau 30x30

- Addasu methodoleg adroddiad yr NLA ar gyfer Cymru.
- Pwysigrwydd ystyried y 70% y tu allan i’r tirweddau dynodedig.

Unrhyw fater arall

- Ymgysylltu â grwpiau gorchwyl bioamrywiaeth a newid hinsawdd.
- Menter Rhestr Werdd IUCN ar gyfer yr ardaloedd gwarchodedig.

Camau Gweithredu	**Perchennog**	**Statws**
Trefnu dyddiad i drafod yr adborth ar adroddiad Cymdeithas Ecolegol Prydain.	RL / HD	
Cynllun gwaith ar gyfer y cyfarfod nesaf	SWP	
Adborth ar y Ddyletswydd Sylw Dyladwy – sefydlu fforwm o'r Awdurdodau Cenedlaethol Perthnasol	Pawb	
Adborth o gyfarfod TCLW ar 17eg Gorffennaf	RL / SWP	
Gwahodd CH o APCBB i gyfarfod yn y dyfodol	RL / SWP	
Dosbarthu arolwg i drefnu'r cyfarfod nesaf	ER	